

HEDD WYN (1887 – 1917)

Ganwyd Ellis Humphrey Evans ar 13 Ionawr 1887 yn Nhrawsfynydd. Yn dilyn addysg sylfaenol gadawodd ysgol yn bedair ar ddeg i ddechrau bugeilio ar fferm ei dad, Yr Ysgwrn.

Dechreuodd ysgrifennu cerddi ban yn rhyw un ar ddeg oed, ac o fewn wyth mlynedd roedd yn cystadlu'n rheolaidd mewn Eisteddfodau lleol. Ysbrydolwyd llawer o'i waith gan y beirdd Rhamantaidd megis Shelly; nid yw'n syndod efallai i fugail ifanc fyfyrion dros natur a chrefydd. Enillodd y gyntaf o chwe chadair yn Eisteddfod y Bala yn 1907, ac erbyn 1910 roedd wedi cymryd yr enw barddol Hedd Wyn.

Cyn pen dim roedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn taflu cysgodion tywyll ar draws pob cymuned ym Mhrydain. Dechreuodd consgripsiwn yn 1916, ac roedd yn ofynnol i fab o deulu Ysgwrn i ymuno â'r Fyddin Brydeinig. Er mwyn sicrhau na fyddai'n rhaid i'w frawd iau gael ei ddanfôn, ymrestrodd Ellis. Derbyniodd hyfforddiant yng Ngwersyll Litherland, Lerpwl, ond ym mis Mawrth 1917, ynghyd â milwyr eraill, cafodd ei ryddhau o'i ddyletswydd am saith wythnos i helpu gydag aredig a phlannu tir. Aeth adref i Drawsfynydd. Yn ystod y cyfnod hwn dechreuodd weithio ar yr awdl 'Yr Arwr' ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd hi'n flwyddyn wlyb, ac arhosodd yn hwy adref ar y fferm i orffen plannu nag a ganiateir. Dyma'r heddlu milwrol yn ei gasglu'n ddisymwth a chafodd ei ddal mewn cell ym Mlaenau Ffestiniog dros nos, cyn cael eu cludo i Wlad Belg ac yna ymlaen i ymuno â Bataliwn 15fed Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn Fléchin, Ffrainc.

Roedd ei ymadawiad wedi bod mor sydyn, nes peri iddo anghofio'r gerdd ar gyfer yr Eisteddfod ar fwrdd adre ar y fferm, felly ysgrifennodd hi eto ar ei daith. Yn Fléchine, tra'n aros am yr orchymyn i fynd i ymladd y gorffennodd 'Yr Arwr' a'i llofnodi a'r ffug-enw 'Fleur de Lis'. Postiodd hi o'r dref ar 15 Gorffennaf 1917, un diwrnod cyn i'w Fataliwn orymdeithio tuag at yr hyn a adnabyddur heddiw fel Brwydr Passchendaele.

Yn ôl yng Nghymru, aeddfedodd y cnydau a dechreuodd y cynaeafu. Ym mis Medi'r flwyddyn honno, cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Birkenhead. Cynhaliwyd seremoni'r Cadeirio'r ar y 6ed o Fedi ym mhresenoldeb y Prif Weinidog, David Lloyd George.

Ar yr amser penodedig, dyma enw ffug y bardd buddugol yn cael ei gyhoeddi: "Fleur de Lys", a'r corn gwlad yn gwahodd y bardd i sefyll a gwneud ei hun yn hysbys, ond safodd neb. Yn lle hynny, yn ddifrifol, cyhoeddodd yr Archdderwydd bod bardd y gadair, Ellis Evans wedi cael ei ladd wrth ymladd chwe wythnos ynghynt. Cafodd ei glwyfo yn ystod Brwydr Passchendaele, a bu farw o'i anafiadau ar 31 Gorffennaf 1917.

Gorchuddiwyd y gadair mewn blanced du ac mae wedi ei hadnabod ers hynny fel 'Cadair Ddu Birkinhead'.

Claddwyd Ellis H Evans ym Mynwent Artillery Wood ger Boezinge. Wedi diwedd y Rhyfel, cyflwynwyd deiseb i'r comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad yn gofyn am

ychwanegu rhai geiriau at yr enw syml 'E H Evans' ar ei garreg fedd. Felly, heddiw mae'n darllen: 'E H Evans, Y Prifardd Hedd Wyn'.